# Cynllun yr Iaith Gymraeg

## A baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

18 Mawrth 2015

CMA44

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

# Cynnwys

*Tudalen*


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Cynllun CMA ..... 3
3. Rôl CMA ..... 4
4. Gwasanaeth, cynllunio a chyflenwi ..... 5
5. Delio gyda'r cyhoedd Cymraeg ei iaith ..... 6
6. Wyneb cyhoeddus ..... 8
7. Gweithredu'r cynllun ..... 11
8. Adolygu ac addasu'r cynllun ..... 14

Atodiad 1: system sgorio'r cynllun iaith Gymraeg ar gyfer cynhyrchu cyhoeddiadau 15

## 1. Cyflwyniad

1.1 O dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) rhaid i bob corff cyhoeddus sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

1.2 Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) gynhyrchu cynllun o'r fath, ond er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru mae wedi penderfynu mabwysiadu'r cynllun hwn yn wirfoddol.

1.3 Dyma Gynllun Iaith Gymraeg CMA. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

1.4 Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 14 o'r Ddeddf. Daeth i rym 18 Mawrth 2015.

1.5 Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg ae wefan Comisiynydd y Gymraeg: www.comisiynyddygymraeg.org.

## 2. Cynllun CMA

2.1 Mae CMA wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb.

2.2 Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd CMA yn gweithredu'r egwyddor hwnnw wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.3 Wrth lunio'r mesurau a nodir yn y cynllun, mae CMA wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn sydd yn briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol ac mae'n dilyn yr egwyddorion a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

2.4 Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoeddus** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol, cyrff gwirfoddol ac elusennau. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, adran o'r cyhoedd ac aelodau unigol o'r cyhoedd. Nid yw'n cynnwys personau sydd yn gweithredu mewn gallu sydd yn gynrychioliadol o'r Goron, Llywodraeth y Wladwriaeth. Felly nid yw personau sydd yn cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod oddi mewn i ystyr y gair cyhoeddus pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

2.5 Fe fydd cynllun CMA yn berthnasol i holl swyddogaethau CMA.

# 3. Rôl CMA

3.1 Crewyd CMA gan y ddeddf Diwygio Menter a Rheoleiddio 2013. Mae ein prif swyddfa yng nghanol Llundain gyda swyddfa loeren yng Nghaeredin. Ar hyn o bryd nid oes gan CMA swyddfa ar wahân yng Nghymru er bod cynrychiolydd CMA wedi'i leoli yng Nghymru.

3.2 Ein cenhadaeth ydy gwneud i farchnadoedd weithio'n dda er budd defnyddwyr, busnesau a'r economi. Ein huchelgais cyffredinol ydy bod ymysg yr asiantaethau cystadlu a defnyddwyr arweiniol yn y byd yn rheolaidd. Mae pump nod strategol yn waelodol i'n cenhadaeth:

- cyflenwi gorfodaeth effeithiol
- ymestyn ffiniau cystadleuaeth
- ail ffocysu diogelu defnyddwyr
- cyflawni rhagoriaeth proffesiynol
- datblygu perfformiad integredig

3.3 Am ragor o wybodaeth am y CMA ewch i www.gov.uk/cma

3.4 Mae manylion cyswllt ar gael hefyd o'n tudalennau gwe ac ar ddiwedd y ddogfen hon.

# 4. Gwasanaeth, cynllunio a chyflenwi

## Polisïau, blaenoriaethau a gwasanaethau

4.1 Fe fydd holl bolisïau, blaenoriaethau a gwasanaethau CMA yn gyson gyda'r cynllun hwn.

## Cyflenwi gwasanaethau

4.2 Fe fyddwn yn sicrhau bod cymaint â phosibl o'n gwasanaethau yn berthynol i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg – ac fe fyddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddan nhw.

## Ein swyddogaethau rheoleiddiol – a gwasanaethau a gyflenwir ar ein rhan gan drydydd partïon

4.3 Fe fydd unrhyw gytundebau neu drefniadau yn berthynol i wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yr ydym yn eu gwneud gyda thrydydd bartïon, yn gyson gyda'r cynllun hwn. Fe fyddwn yn sicrhau bod trydydd partïon yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.

## Safonau ansawdd

4.4 Fe fyddwn yn ymgymryd i gyflenwi gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg o fewn yr un amserlen.

# 5. Delio gyda'r cyhoedd Cymraeg ei iaith

## Gohebiaeth

5.1 Fe fydd ein harfer arferol fel â ganlyn:

- Caiff gohebiaeth yn Gymraeg ei ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Fe fydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifenwyd yn Saesneg: 20 diwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 20 diwrnod gwaith ar gyfer pob gohebiaeth arall.

- Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu gorff, fe fyddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddyn nhw ohebu yn Gymraeg.

- Pan fo gohebiaeth yn berthynol i ymchwiliad CMA ac/neu unrhyw weithdrefn apelio, fe fydd y penderfyniad i gychwyn ac i ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ôl disgresiwn cyfarwyddwyr y prosiectau, gan gymryd i ystyriaeth beth ydy'r pwnc a'r amserlenni statudol a bennir gan y broses ymchwilio

- Fe fydd yr un polisïau yn berthnasol i ohebiaeth e-bost fel ag i bob ffurf arall o ohebiaeth.

- Os caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth eu cyhoeddi ar wahân, fel rheol fe fyddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

- Fe fyddwn yn defnyddio'r system sgorio cytun i nodi'n wrthrychol pa ohebiaeth safonol a chylchol a gyhoeddir yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog. Mae disgrifiad o'r system sgorio ar gael yn Atodiad 1.

- Fe fydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog lle mae angen iddyn nhw fod felly yn erbyn y system sgorio.

- Fe fydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ddwyieithog lle mae angen iddyn nhw fod felly yn erbyn y system sgorio.

## Cyfathrebiadau Ffôn

5.2 Dydy hi ddim yn ymarferol inni gynnal sgyrsiau ffôn yn Gymraeg. Ond, pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth yn benodol i'r cyhoedd yng Nghymru, fe fyddwn

yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Caiff hyn ei hysbysebu ochr yn ochr gyda'r gwasanaeth Saesneg.

## Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

5.3 Fe fydd CMA yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sydd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn gallu cyfrannu yn Gymraeg, a bod croeso iddyn nhw wneud hynny trwy ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd neu olynnol o'r Gymraeg i'r Saesneg oni bai ein bod wedi sefydlu bod yr holl gyfanogwyr yn debygol o fod yn defnyddio'r un iaith.

5.4 Fe fydd gwahoddiadau a hysbysebion am gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddwn yn gwahodd cyfranogwyr i roi gwybod inni o flaen llaw, ym mha iaith y maen nhw'n dymuno siarad.

5.5 Fe fyddwn yn rhoi gwybod i'r rhai sydd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus lle y mae cyfleusterau cyfieithu ar gael.

5.6 Fe fydd papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, lle darperir cyfleusterau cyfieithu, ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Fe fyddwn yn sicrhau bod adroddiadau a phapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru lle darparwyd cyfleusterau cyfieithu yn cale eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Cyfarfodydd eraill yng Nghymru

5.7 Fe fydd CMA, wrth gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd yng Nghymru, yn trefnu cyfleusterau cyfieithu os mai'r dewis iaith ar gyfer y cyfarfod ydy Cymraeg.

## Trafodiadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

5.8 Pan fyddwn yn cynnal **arolygon cyhoeddus**, fe fyddwn yn gofyn i ymatebwyr os ydyn nhw'n dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

5.9 Pan fyddwn yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, fe fyddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad yma, fe fyddwn yn ystyried yr wybodaeth sydd gennym am ddewis iaith y rhai y mae'r digwyddiad wedi'i anelu atyn nhw ac argaeledd hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg.

5.10 Fe fyddwn yn sicrhau bod cyhoeddiadau a wneir ar ein rhan ar **systemau cyhoeddiadau cyhoeddus** yng Nghymru yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg.

# 6. Wyneb cyhoeddus

## Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

6.1 Cynhyrchir yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd, hyrwyddo a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru i dargedu'r cyhoedd yn ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os caiff y fesiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân. Fe fydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd ac fe fydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac fe fyddan nhw'r un mor hygyrch.

6.2 Yr eithriadau i'r uchod fydd:

- deunyddiau a ddefnyddir mewn digwyddiadau fel eisteddfodau Cymru lle y gellir defnyddio deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunyddiau arddangos a hysbysebu yn Gymraeg yn unig; a
- deunydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol. Fe fyddwn yn ystyried yr angen i gyfieithu'r deunydd hwn ym mhob achos gan ystyried natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw ac ar y cyd gyda'r system sgorio yn Atodiad 1.

6.3 Fe fydd hysbysebion mewn papurau Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos yr un pryd ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

6.4 Fe fydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

6.5 Fe fydd ymgyrchoedd teledu sydd yn ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Fe fydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

6.6 Fe fydd llinellau ymateb ffôn a dulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu yn cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

## Cyhoeddiadau

6.7 Yn amodol i'r system sgorio yn Atodiad 1, fe fyddwn yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd naill ai yn ddwyieithog (gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen) neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

6.8 Os cyhoeddir y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fe fydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd a'n harfer arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Fe fydd y ddwy fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

6.9 Fe fyddwn yn defnyddio'r system sgorio i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd ar wahân yn Gymraeg a Saesneg neu fel dogfennau dwyieithog.

6.10 Os nad ydyn nhw ar gael am ddim, ni fydd cost dogfen ddwyieithog ddim mwy na chost cyhoeddiad iaith sengl. Fe fydd cost fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

6.11 Mae'r uchod yn berthnasol hefyd i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein tiudalennau gwe, ar CD-ROM neu fel arall.

## Gwefannau

6.12 Mae mynediad i'n tudalennau gwe ar gael trwy www.gov.uk/cma. Lle mae yna alw fe fyddwn yn cyhoeddi tudalennau yn Gymraeg a Saesneg.

6.13 Pan fyddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau Saesneg ar ein tudalennau gwe, lle cynhyrchir fersiynau Cymraeg, fe fyddan nhw'n cael eu postio ar yr un pryd.

## Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

6.14 Fe fyddwn yn sicrhau y bydd yr holl ffurflenni a'r deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg, yn amodol i'r system sgorio yn Atodiad 1. Fe fydd hyn yn cynnwys y ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein tudalennau gwe.

6.15 Os cyhoeddir y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe fydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd, ac fe fyddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Fe fydd y ddwy fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

6.16 Fe fyddwn yn defnyddio'r system sgorio i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd ar wahân yn Gymraeg a Saesneg neu fel dogfennau dwyieithog.

6.17 Pan fyddwn yn nodi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o'r ffurflen a anfonir at y cyhoedd, fe fyddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

6.18 Pan fyddwn yn nodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, fe fyddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn

gwybod y byddai'n well gan y rhai sy'n eu derbyn gael yr wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

6.19 Pan fo cyrff eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, fe fyddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

## Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

6.20 Fe fydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Fe fydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

6.21 Fe fydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – boed wedi'u cynhyrchu fel fersiwn ddwyieithog sengl neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

6.22 Gall hysbysiadau recriwtio mewn cyhoeddiadau Saesneg gyda dosbarthiad DU gyfan fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ac os felly fe fydd yr hysbysiad yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg. Fe fydd hysbysiadau recriwtio mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn gwbl ddwyieithog.

## Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau gyda'r cyfryngau

6.23 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn y wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn Gymraeg.

# 7. Gweithredu’r cynllun

## Trefniant gweinyddol

7.1 Cymeradwywyd yr ymrwymiadau a’r trefniadau yn y cynllun hwn gan Bwyllgor Gweithredol CMA.

7.2 Fe fydd CMA yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r cynllun a’u cyfrifoldebau o dan y ddeddf trwy ddarparu canllaw a chyfarwyddiadau i staff.

7.3 Mae’r mesurau yn y cynllun hwn wedi’u hawdurdodi, eu cefnogi a’u cymeradwyo’n llawn gan CMA.

7.4 Cyfirfoldeb y Cyfarwyddwyr Prosiectau fydd gweithredu’r agweddau hynny o’r cynllun sydd yn berthnasol i’w gwaith.

7.5 Caiff ein staff wybod am y cynllun ac fe roddir gwybod ir cyhoedd yng Nghymru hefyd. Caiff ei gyhoeddi ar ein tudalennau gwe mewn man priodol.

7.6 Fe fyddwn yn cynhyrchu canllaw i’n staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu‘r mesurau sydd yn y cynllun hwn.

7.7 Fe fyddwn yn addasu canllaw staff cyfredol sydd wedi’i effeithio gan y cynllun hwn i adlewyrchu’r mesurau sydd yn y cynllun hwn.

7.8 Fe fyddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys a ddefnyddiwn i helpu i gyflenwi’r cynllun hwn.

7.9 Fe fyddwn yn rhoi’r dasg i’n Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig o gydgysylltu’r gwaith angenrheidiol i gyflenwi, monitro ac adolygu’r cynllun hwn.

7.10 Fe fydd mwyafrif y trefniadau angenrheidiol i gyflenwi’r ymrwymiadau hyn yn bodoli ar adeg cyhoeddi’r cynllun. Ein nod ydy sicrhau ein bod yn cyflenwi gweddill yr ymrwymiadau sydd yn y cynllun hwn cyn gynted ag sy’n ymarferol ac o fewn 12 mis i’w gyhoeddi.

## Recriwtio

7.11 I unrhyw swydd sydd â chysylltiad helaeth a rheolaidd gyda’r cyhoedd yng Nghymru fe fyddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol – a chaiff hynny ei ddatgan mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.

## Hyfforddiant iaith

7.12 Fe fyddwn yn cefnogi ac yn cyllido hyfforddiant Cymraeg a galwedigaethol Cymraeg lle mae'r sgiliau hynny yn berthnasol i ddeiliad y swydd, yn unol â'n polisi dysgu a datblygu cyfredol.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau

7.13 Fe fyddwn yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, gan weithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau (TGCh).

7.14 Wrth inni ddatblygu neu brynu systemau TGCh fe fyddwn yn cymryd i ystyriaeth y canllaw a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## Gweithio mewn partneriaeth

7.15 Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, fe fyddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'r cynllun hwn.

7.16 Pan fyddwn yn ymuno gyda phartneriaeth ffurfiol dan arweiniad corff arall, fe fydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r cynllun hwn ac fe fyddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

7.17 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, fe fyddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio gyda'r cynllun hwn.

7.18 Mae'r uchod yn cyfeirio'n unig at bartneriaethau ffurfiol sydd yn delio gyda gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

7.19 Cynhelir unrhyw gysylltiad gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'n cael ei drafod yn benodol dan y cynllun hwn, mewn dull sydd yn gyson gydag egwyddorion cyffredinol y cynllun.

## Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

7.20 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, fe fyddwn yn eu cyfieithu i ddewis iaith y ceisydd cyn belled â bod nifer y geiriau i'w cyfieithu yn llai na 500.

## Monitro

7.21 Fe fyddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn. Fe fyddwn yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg ar ein cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn yn flynyddol bob mis Mehefin.

## 8. Adolygu ac addasu'r cynllun

8.1 O dro i dro efallai y bydd angen inni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig addasiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau neu i'r amgylchiadau yr ydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny ynddyn nhw, neu am unrhyw reswm arall.

8.2 Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

### Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant

8.3 Dylid cyfeirio cwynion yn berthynol i'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant at:

Cynrychiolydd CMA yng Nghymru
Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
2 Caspian Point
Caspian Way
CAERDYDD
CF10 4DQ

8.4 Fe fyddwn yn cydweithredu gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatrys cwynion, ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## Atodiad 1: system sgorio'r cynllun iaith Gymraeg ar gyfer cynhyrchu cyhoeddiadau

Diben y ddogfen hon ydy cynnig dull o helpu i benderfynu cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg ai peidio ac os felly, i gynhyrchu dogfennau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Dydy'r system sgorio ddim wedi'i bwriadu i fod yn gwbl gyfarwyddol neu anhyblyg. Dylid ei ddefnyddio i helpu gyda'r dasg o benderfynu'r ffordd ymlaen ym mhob achos. Os caiff penderfyniad ei wneud i beidio â gweithredu yn unol â'r system sgorio, rhaid inni allu esbonio pam.

Dylid cadw dogfen sgorio ar ffeil ar gyfer pob cyhoeddiad, fel cofnod o'r broses sgorio.

### System sgorio (7 cwestiwn)

1. Nifer y copïau i'w hargraffu bob blwyddyn:

| | |
|---|---|
| 1 i 500 | sgôr = 1 |
| 500 i 5,000 | sgôr = 5 |
| dros 5,000 | sgôr = 10 |

**sgôr =**

2. Y gynulleidfa darged:

| | |
|---|---|
| cyhoedd | sgôr = 10 |
| sector neilltuol o'r cyhoedd | sgôr = 5 |
| unigolion yn cynrychioli meysydd penodol | sgôr = 1 |

**sgôr =**

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes pwnc neu i ran o Gymru o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn cynnwys pobl ifanc, yr oedrannus, amaethyddiaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau – nau a fydd wedi'i anelu yn unig at ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg?

| | |
|---|---|
| ie | sgôr = 5 |
| na | sgôr = 0 |

**sgôr =**

4. Pa mor hir y caiff y cyhoeddiad ei ddefnyddio? (Ni ddylid ystyried ail argraffu'r cyhoeddiad, mân newidiadau fel newid y flwyddyn ar frig y cyhoeddiad neu newid rhan o'r cyhoeddiad i adlewyrchu rheolau neywdd, eu hystyried fel diwedd cylch bywyd yr hen fersiwn). **Ond os mai dogfen ymgynghori ydy'r cyhoeddiad** dylid anwybyddu'r cwestiwn yma ac ateb cwestiwn 7 yn hytrach (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):

| | |
|---|---|
| 0 i 6 mis | sgôr = 1 |
| 6 mis i 2 flynedd | sgôr = 5 |
| dros 2 flynedd | sgôr = 10 |
| | **sgôr =** |

5. Nifer y geiriau mewn cyhoeddiad:

| | |
|---|---|
| 0 i 1,000 | sgôr = 6 |
| 1,000 i 5,000 | sgôr = 4 |
| dros 5,000 | sgôr= 2 |
| | **sgôr =** |

6. Amcangyfrif gorau o'r nifer o dudalennau mewn **fersiwn iaith sengl** o'r cyhoeddiad:

| | |
|---|---|
| 1 i 10 | sgôr = 6 |
| 10 i 20 | sgôr = 4 |
| dros 20 | sgôr = 2 |
| | **sgôr =** |

7. (cwestiwn ar gyfer **dogfennau ymgynghori yn unig**). Delio gyda phwnc sydd yn:

| | |
|---|---|
| Arbenigol/technegol iawn | sgôr = 1 |
| Gweddol gymhleth ond o ddiddordeb i lawer | sgôr = 5 |
| Hawdd ei ddeall/o ddiddordeb cyffredinol | sgôr = 10 |
| | **Sgôr =** |

**CYFANSWM SGÔR =**

## Gwiriwch eich sgoriau isod

Cymharwch eich cyfanswm sgor gyda'r amrediad sgoriau isod i wirio os oes angen **fersiwn papur** o'r cyhoeddiad:

| | |
|---|---|
| **0 i 22** | Dim angen cynhyrchu fersiwn Cymraeg. |
| **23 i 28** | Dylid rhoi ystyriaeth difrifol i gynhyrchu fersiwn Gymraeg. Dylid o leiaf gynhyrchu crynodeb Cymraeg. |
| **dros 28** | Dylid cynhyrchu fersiwn Gymraeg. |

Ychwanegwch eich **sgoriau o gwestiynau 2, 3, 4, 5 a 7 yn unig** a'u cymharu gyda'r amrediad sgoriau isod i wirio os oes angen **fersiwn electronig** o'r cyhoeddiad ar gyfer gwefan CMA:

| | |
|---|---|
| **0 i 14** | Dim angen cynhyrchu fersiwn Gymraeg. |
| **15 i 18** | dylid rhoi ystyriaeth difrifol i gynhyrchu fersiwn Gymraeg. Dylid o leiaf gynhyrchu crynodeb Cymraeg. |
| **dros 18** | Dylid cynhyrchu fersiwn Gymraeg. |

## Penderfynu cyhoeddi fel dogfen ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymell y dylid tybio fel man cychwyn **o blaid dogfennau dwyieithog** yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae darparu deunyddiau dwyieithog yn haws yn weinyddol (o ran rheoli stoc a dosbarthu) na darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae manteision hefyd o ran diwallu anghenion teuluoedd ieithoedd cymysg, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod y ddwy fersiwn o ddogfen yr un mor hygyrch mewn unrhyw leoliad – gan osgoi'r angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng gorfod defnyddio'r fersiwn Saesneg neu gofyn am fersiwn Gymraeg a dioddef oedi o ganlyniad i hynny.

Gellir gwneud penderfyniadau fodd bynnag i gyhoeddi dogfen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân os ydy cost ac ymarferoldeb yn gwneud y mater o fersiynau ar wahân yn amhosibl i'w osgoi. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau mewn dogfen (os y byddai paratoi fersiwn ddwyieithog yn ei gwneud yn rhy fawr a thrwsgwl).

I ddogfennau a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a ddosberthir 'yn ôl y galw' (er enghraifft, mewn ymateb i ymgyrch hysbysebu) lle mae'r defnydd a ragwelir o'r ddogfen yn isel, gall fod yn bosibl cyfiawnhau cyhoeddi i ddechrau yn unig ar dudalennau gwe CMA. Yn yr achosion hyn, dylid trefnu cyhoeddi copi caled os ydy aelod o'r cyhoedd yn gofyn am hynny. Gellir gwneud hyn yn fewnol, neu trwy argraffwyr proffesiynol.

Dydy'r cyngor hwn ar gyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ddim yn berthnasol i ddogfennau a gyhoeddir ar dudalennau gwe CMA. Trwy ei union natur, fe fydd dogfen Gymraeg electronig yr un mor hygyrch â'r fersiwn Saesneg, boed wedi'i chyhoeddi fel dogfen ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.